

Cofnodion

Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru

Dydd Llun 16 Mawrth 2020

Cyfarfod dros Skype

1) Croeso ac Ymddiheuriadau (*Cadeirydd*)

1a Daeth ymddiheuriadau i law gan:

Dennis Matheson, TFA

Stephen Marsh-Smith, WEL

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Sophie Straiton, DCWW

Sarah Hetherington, CNC

1b Cyflwyniadau

Presenoldeb wedi'i gadarnhau:

Zoe Henderson, CNC (*Cadeirydd*)

Steven Bradley, DCWW

Aled Jones, UAC

Matt Lowe, CNC

John Browne, CNC

Rob McCall, CNC

Mark Squire, CNC

Creighton Harvey, FfPSG

Bob Vaughan, CNC

Marc Williams, CNC

Nichola Salter, CNC

Katy Simmons, CNC

Lhotse Whittle, CNC

Andrew Chambers, LIC

Jamie McCoy, AHDB

Liz Franks, Hafren Dyfrdwy

Fraser McAuley, CLA

Lee Price, Menter a Busnes

Lorna Davis, NFU Cymru

1c Datganiad o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag Eitemau ar yr Agenda.

***Yn anffodus, collwyd y recordiad o'r cyfarfod hwn. Felly, ni fydd y cofnodion hyn yn gofnod

2) Cofnodion y cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019 a phwyntiau gweithredu heb eu cwblhau

Cafodd cofnodion a phwyntiau gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2019 eu hadolygu. Ar ôl gwelliant neu ddau, cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

3) Diweddariad ar y Rheoliadau Amaethyddol

Darparodd Andrew Chambers yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheoliadau amaethyddol arfaethedig, a dywedodd nad oedd yn gwybod pryd y byddai'r Gweinidog yn gwneud cyhoeddiad ar y rheoliadau arfaethedig.

Cyfarfu Creighton Harvey â Chadeirydd Sir NFU Cymru dros Sir Gaerfyrddin, a dywedodd fod ffermwyr yn dioddef oherwydd yr ansicrwydd a'r oedi o ran y rheoliadau arfaethedig. Byddai Andrew yn trosglwyddo'r neges i'r Gweinidog.

Gofynnodd Steven Bradley pa gamau a gymerwyd i greu cynllun cyfathrebu cyn lansiad y rheoliadau. Cadarnhawyd na fyddai unrhyw gynllun terfynol yn cael ei roi ar waith hyd nes y byddai'r Gweinidog yn gwneud penderfyniad. Dim ond wedyn y byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu. Ni fyddai rhagor o weithdai yn cael eu cynnal ar y cynigion. Fodd bynnag, roedd y grŵp yn teimlo y dylai LIC gydnabod ei bod yn barod i helpu ymhellach cyn unrhyw benderfyniad terfynol.

Cadarnhaodd Andrew Chambers y byddai aelodau'r Is-grŵp yn cael rhybudd cyn i unrhyw gyhoeddiad gael ei wneud gan y Gweinidog.

4) Cyhoeddi Cofnodion Is-grwpiau Fforwm Rheoli Tir Cymru

Hyd hynny, nid oedd cofnodion cyfarfodydd mis Hydref a mis Tachwedd wedi cael eu cyhoeddi ar y wefan. Byddai Andrew Chambers yn cadarnhau pa un a oedd y contractwyr amaethyddol yn hapus ynghylch y cofnodion ai peidio, a byddai'n cysylltu â Marc Williams cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar y wefan.

Pwynt Gweithredu 1: Andrew Chambers i wirio gyda'r contractwyr amaethyddol cyn i gofnodion mis Hydref a mis Tachwedd gael eu cyhoeddi, ac i roi gwybod i Marc Williams

5) Diweddariad Cyswllt Ffermio

Rhoddodd Lee Price ddiweddariad ar y gwaith amrywiol a wnaed gan Cyswllt Ffermio. Cadarnhaodd y gofynnwyd i'r cynllun ddarparu rôl trosglwyddo gwybodaeth pan fyddai'r rheoliadau newydd yn cael eu lansio. Roedd y gwasanaeth mentora wedi dod yn boblogaidd iawn ymysg ffermwyr, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd dŵr. O ganlyniad i'r

Coronafeirws, roedd nifer o ddigwyddiadau ar ffermydd yn mynd i gael eu canslo. Roedd 18 o ddigwyddiadau yn yr arfaeth hyd at fis Awst. Efallai y byddai'r digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn cael eu cynnal, ac nid oeddent wedi cael eu canslo hyd hynny. Byddai yna gynlluniau i ad-drefnu'r digwyddiadau hyn. Fodd bynnag, roedd y cyngor a'r clinigau yn parhau i gael eu darparu.

Roedd Menter a Busnes yn gweithio gyda LIC i gasglu gwybodaeth gan ffermwyr ledled Cymru er mwyn helpu i lunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) ar gyfer Cymru. Byddai dolen i'r dudalen we yn cael ei dosbarthu i'r Is-grŵp, a rhoddodd Lee anogaeth i'r aelodau rannu'r wybodaeth hon â rhanddeiliaid a ffermwyr. Esboniodd Lee fod y Rhaglen Gydlunio ar gyfer yr CFfC yng Nghymru wedi'i rhannu'n ymarferion ar wahân. Roedd yna arolwg yn canolbwyntio ar y siwrnai i gymryd rhan yn y cynllun newydd, cyfarfodydd un i un i gynnal trafodaethau cyfrinachol ar unrhyw un o'r pynciau yn fwy manwl, neu weithdai grŵp rhanbarthol. Y pedwar pwnc a oedd yn rhan o'r cynllun newydd oedd Hwsmonaeth Pridd, lechyd a Lles Anifeiliaid, Cyfleoedd i Ddatblygu Ffermydd, a Rheoli Cynefinoedd. Y dyddiad cau i gwblhau'r arolwg a mynegi diddordeb mewn cyfarfod neu weithdy un i un oedd 30 Mai 2020.

Atgoffwyd y grŵp gan Creighton Harvey fod hwn yn amser pryderus i'r sector, ac y byddai llawer o'r gwaith a amlinellid yn y briff hwnnw yn helpu i dawelu pryderon ffermwyr.

Gofynnodd Steven Bradley a oedd ymdrechion yn dal i ganolbwyntio ar y cyrff dŵr targededig, ac a oedd y fideo llygredd amaethyddol yn dal i gael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd Lee Price fod dwy set o archwiliadau wedi cael eu cynnal, ac y byddai trydedd set yn cael ei chyflwyno pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud ar y rheoliadau newydd. Roedd y fideo llygredd amaethyddol yn cael ei chwarae cyn holl gyfarfodydd y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, a byddai'n cael ei ddefnyddio am gryn amser i ddod.

Pwynt Gweithredu 2: Lee Price i ddosbarthu'r ddolen i'r dudalen we ar gyfer Rhaglen Gydlunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

6) Strategaeth Ymadael Agrisgôp

Byddai cyllid gan Menter a Busnes i dalu i swyddogion redeg y grŵp Agrisgôp yn dod i ben. Hyd hynny, roedd wyth grŵp wedi cynnal eu cyrsiau ansawdd dŵr yn rhan o Agrisgôp. Roeddent wedi gweithredu dros wyth mis, gan hwyluso rhwng chwech ac wyth cyfarfod, a hynny gyda dyraniad bach o gyllid ar gyfer siaradwyr gwadd. Roeddent yn gwneud cais am arian ar gyfer 30 o grwpiau newydd, gyda'r nod o wneud y grwpiau'n ddigon cadarn i fod yn hunangynhaliol. Anogodd y Cadeirydd aelodau'r Is-grŵp i barhau i gefnogi'r grwpiau Agrisgôp er mwyn cadw'r momentwm, a gofynnodd i'r aelodau archwilio unrhyw gyllid posibl a allai fod ar gael i gefnogi'r grwpiau hyn.

Cafwyd ymholiad o ran y modd i symud y grwpiau wrth fynd ymlaen, ac o ran faint o gymorth a fyddai'n angenrheidiol. Cafwyd trafodaeth ynghylch citiau samplu ansawdd dŵr, a chefnogi grwpiau i annog ffermwyr i fonitro eu cyrsiau dŵr eu hunain.

Pwynt Gweithredu 3: Trafodaethau i ddigwydd ar y modd i symud y grwpiau Agrisgôp yn eu blaen, a chynnig i'w ddrafftio i'w gyflwyno i'r Is-grŵp (Mark Squire, CNC)

7) Heriau Arloesi y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)

Ym mis Gorffennaf 2019, nododd yr Is-grŵp restr o bryderon ac, o ganlyniad, pennwyd heriau ar gyfer y pryderon. Rhannodd Bob Vaughan wybodaeth am y tair her flaenoriaethol y gellid eu cyflwyno i LIC, pe bai'r Is-grŵp yn cytuno i fwrw ymlaen â nhw. Byddai'r heriau eang yn cael eu defnyddio i sefydliadau awgrymu a datblygu atebion arloesol. Byddai portffolio yn cael ei greu er mwyn symud ymlaen â'r heriau allweddol.

Roedd y tair her yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi'r data a'r wybodaeth i ffermwyr i'w galluogi i reoli eu tir mewn modd cynaliadwy. Darparu mynediad agored a gwybodaeth hawdd ei dehongli am gyflwr pridd
- Helpu rheolwyr tir i wneud y dewisiadau cywir
- Siop un stop hawdd ar gyfer gwybodaeth amaethyddol

Cytunodd yr Is-grŵp i'r tair her y tynnwyd sylw atynt.

Pwynt Gweithredu 4: Bob Vaughan i drafod yr heriau, a'r modd i'w symud yn eu blaen, â Gareth Browning, LIC,

8) Staff Amaethyddol yn CNC

Rhannodd Nik Salter gyflwyniad â'r Is-grŵp a oedd yn tynnu sylw at y staff amaethyddol yn CNC ledled Cymru. Dangosodd Nik strwythur CNC, yn cynnwys enwau, cyfarwyddiaethau a thimau, gan roi mwy o ffocws i'r diwydiant amaethyddol. Dangoswyd map o ardaloedd yr 16 o Dimau yr Amgylchedd ledled Cymru, ynghyd â nifer y swyddogion yn y timau neu'r ardal a oedd yn meddu ar wybodaeth amaethyddol dechnegol. Esboniwyd nad oedd y swyddogion hyn yn delio ag amaethyddiaeth yn unig, ond eu bod hefyd yn ymdrin ag adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, ac yn ymateb i amrywiaeth o achosion o ddirgwyddiadau llygredd.

Pwynt Gweithredu 5: Dosbarthu'r siart strwythur ar gyfer y tîm Tystiolaeth, Cynllunio a Chaniatáu i'r Is-grŵp (Nik Salter, CNC)

9) Diweddariad ar y Prosiect Llaeth

Rhoddodd Matt Lowe ddiweddariad byr ar y Prosiect Llaeth, a chadarnhaodd fod y Swyddogion Llaeth yn dal i fod ar gcontractau dros dro. O'r wyth a benodwyd yn wreiddiol, roedd saith wedi gadael y prosiect ac roedd gan yr wythfed gyfweiliad am swydd barhaol yn CNC. Erbyn diwedd mis Chwefror, roedd y prosiect wedi cynnal cyfanswm o 650 o ymweliadau, ac wedi cyflwyno eu hadroddiadau i 557 o ffermwyr. Ar y pryd, roedd yna naw swyddog mewn swydd ac roedd y prosiect wedi sicrhau cyllid tan 31 Mawrth 2021. Roedd ymdrech ar y cyd yn mynd rhagddi i glirio'r ôl-groniad o adroddiadau, ac roedd yr adroddiadau a oedd yn ddyledus yn ganlyniad i swyddogion yn gadael y prosiect.

10) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol

- Dydd Llun 20 Ebrill 2020, Cyfarfod dros Skype

- Dydd Llun 18 Mai 2020, Cyfarfod dros Skype

11) Y dull gwirfoddol mewn perthynas â'r Diweddariad ar Reoli Maethynnau/Safon Dŵr

Ers dros flwyddyn, roedd Lorna Davis wedi bod yn gweithio ar y Dull Gwirfoddol o Reoli Maethynnau, a byddai'r prosiect yn dod i ben ddiwedd y mis. Roedd Lorna wedi llunio'r ddogfen Safon Dŵr a oedd yn archwilio opsiynau i ddatblygu dull dan arweiniad y ffermwr o sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr a gostwng gorfaethu mewn cyrsiau dŵr. Byddai'r ddogfen hon yn cael ei rhannu ag aelodau'r Is-grŵp.

Rhoddodd Lorna Davis gyflwyniad ar y gwaith yr oedd wedi'i wneud a'r cyfleoedd y gellid elwa arnynt o'r dull dan arweiniad y ffermwr. Dylid derbyn yr heriau o fynd i'r afael â llygredd amaethyddol mewn modd cadarnhaol.

Dywedodd Creighton Harvey ei fod yn croesawu'r ddogfen oherwydd ei bod yn nodi arfer da mewn un man, ond aeth ymlaen i ddweud nad oedd llawer yn cael ei ddweud am y modd yr oedd yr arfer da hwn i gael ei gyflawni. Dim ond rhestr o arferion da oedd y ddogfen mewn gwirionedd.

Diolchodd y Cadeirydd i Lorna am ei gwaith caled ac am lunio dogfen hynod o werthfawr.

12) Diweddariad ar weithgarwch perthnasol yn y dyddiadur

Dim diweddariadau

Unrhyw fater arall

Dim unrhyw fater arall

Daeth y cyfarfod i ben.
